# Prosiect Addasiad Ymyrraeth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc yn yr Ysgol (SAMA) - Canfyddiadau Cam 1

## CEFNDIR

**13%**

O BOBL IFANC 10-19 OED SYDD Â CHYFLWR IECHYD MEDDWL

Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn profi neu'n cae diagnosis o gyflyrau am y tro cyntaf yn

**17 oed am orbryder**

**20.5 oed am iselder**

Felly mae angen atal yn ystod llencyndod cynnar



Yng Nghymru, mae dogfennau polisi yn disgrifio'r canol coll fel pobl ifanc nad ydynt yn gymwys i gael gofal arbenigol ond sy'n methu dod o hyd i gefnogaeth ataliol addas.

**NOD Y GWAITH YMCHWIL HWN OEDD DEALL:**

**Pwy yw'r canol coll sy'n cael eu hystyried?**
**Beth yw eu hanghenion canfyddedig?**
**Beth yw'r cyd-destun presennol i'r grŵp hwn, yn enwedig mewn ysgolion?**

## DULLIAU

### DADANSODDI DOGFENNAU, GRWPIAU FFOCWS A CHYFWELIADAU

**16** Dogfennau polisi ac ymchwil, ac adroddiadau rhanddeiliaid ar iechyd meddwl pobl ifanc yng Nghymru

**35** Myfyrwyr ysgol uwchradd

**18** Staff yr Ysgol - gan gynnwys y tîm uwch reoli, staff addysgu, y rhai sy'n gyfrifol am iechyd a lles/gofal bugeiliol

**25** Rhanddeiliaid ehangach - llunwyr polisïau, gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr o'r sectorau Addysg, Iechyd a Gwirfoddol

## CANLYNIADAU

### CANFYDDIADAU YNGHYLCH PWY YW'R CANOL COLL

- Pobl ifanc sy'n cael eu bownsio rhwng gwasanaethau
- Mae ganddyn nhw naill ai symptomau gorbryder ac iselder nad ydyn nhw'n cyrraedd trothwyon gwasanaeth arbenigol, NEU mae ganddyn nhw broblemau gofid/gweithredu lefel uchel ond ychydig o symptomau
- Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod y canol coll hefyd yn cynnwys pobl ifanc niwroamrywiol (ND) sy'n cael trafferth derbyn cefnogaeth niwroamrywiol ddigonol.

### ACHOSION CANFYDDEDIG

- Pontio rhwng ysgolion a phwysau arholiadau
- Materion teuluol
- Cyfryngau cymdeithasol a thechnoleg
- COVID-19 yn amharu ar ddatblygiad ac addysg pobl ifanc

### POBL IFANC Y TYBIR EU BOD MEWN PERYG

Niwrowahanol
Sydd â phrofiad o fod mewn gofal
Cefndiroedd difreintiedig
Lesbaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, cwiar, neu'n cwestiynu

## ANGHENION CANFYDDEDIG

Angen am sbectrwm o gefnogaeth gan gynnwys ymyriadau gan yr ysgol a'r teulu

Gallai cefnogaeth yn yr ysgol ganolbwyntio ar

- Sgiliau datrys problemau
- Rheoli emosiynau
- Datblygu perthnasoedd iach â chyfoedion yn enwedig i leihau unigrwydd.

## CYD-DESTUN CANFYDDEDIG YNG NGHYMRU

- ↑ o ran pa mor agored ac ymwybodol yw pobl ifanc ynglŷn ag iechyd meddwl ac yn niferoedd y rhai sy'n ceisio cefnogaeth
- ↓ o ran stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl
- ↑ wrth labelu pryderon arferol ac amrywiadau mewn hwyliau fel iselder a gorbryder
- ↑ mewn hunan-ddiagnosis oherwydd iaith feddygol a ddefnyddir i ddeall tyfu'n hŷn

## CYD-DESTUN CANFYDDEDIG AR GYFER CEFNOGAETH YN YR YSGOL

- Mae mwy o gyllid wedi bod ar gyfer cwnsela a chefnogaeth emosiynol
- Mae digonedd o gefnogaeth fewnol yn cael ei chynnig gan ysgolion, a thrwy ddarparwyr allanol fel y sectorau gwirfoddol ac iechyd, a chwmnïau er elw.
- Mae ysgolion yn amgylchedd diogel a chefnogol i geisio cefnogaeth i lawer o bobl ifanc

- Nid yw cyllidebau'n ddigonol o hyd i fodloni'r galw
- Amser ac adnoddau cyfyngedig o fewn ysgolion
- Galw mawr a rhestrau aros hir am wasanaethau sydd eisoes yn cael eu cynnig fel cwnsela ysgol
- Mae diffyg dealltwriaeth ynghylch pa wasanaethau sy'n cael eu cynnig yn arwain at ysgolion yn ansicr beth i'w gyflwyno
- Diffyg cydlynu gwasanaethau a gynigir i ysgolion
- Diffyg ymyriadau ar sail tystiolaeth

# YSTYRIAETHAU AR GYFER Y DYFODOL

Dylai ymyriadau gynnwys y rhai sy'n profi lefelau uchel o ofid neu broblemau gweithredu, yn ogystal â'r rhai sydd â lefel uchel o symptomau

Mae angen mwy o eglurder ynghylch pa ymyriadau sy'n ceisio newid i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pobl ifanc unigol

Mae angen sbectrwm o gefnogaeth ar y canol coll gan gynnwys ymyriadau gan yr ysgol a'r teulu

Er bod iechyd meddwl pobl ifanc wedi cael blaenoriaeth yng Nghymru, mae angen i ni sicrhau bod gwahanol sectorau'n cydweithio i gynnig y gefnogaeth orau i unigolion.

**Mae'r gwaith ymchwil hwn yn rhan o astudiaeth ehangach i nodi ac addasu ymyrraeth mewn ysgolion yng Nghymru. Cysylltwch â Dr Hayley Reed yn reedhm@caerdydd.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth**